

**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG  
GYNHALIWYD 13 MAI 2021 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Meinir James (Cadeirydd), Elfyn Williams, Mair Stephens, Richard John, Shan Rees, Janet Knott, Philip Davies ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau:** Y Cyng Eifion Jones, Rheinallt Jones, Viv Davies ac Hugh Anderson

Nododd y Cadeirydd gydymdeimlad y Cyngor â'r Cyngorydd Mair Stephens ar farwolaeth ddiweddar ei wncwl.

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 1af Ebrill 2021.**

**4. Materion yn codi**

**1. Pryderon am ddiogelwch y ffyrdd ar gyffordd Llandyfaelog â'r A484 –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariad ar y cynnig hwn ar gyfer ymgynghoriad. Nodwyd gyda siom.

**2. Atgyweirio goleuadau ffordd cerdded –** Cadarnhawyd cwblhau'r atgyweiriadau i olau'r panel solar yn Idole. Disgwylid dyddiad ar gyfer gwaith yn Ysgol Bro Myrddin. Nodwyd.

**3. Llwybr troed 29/3 - Rhwng Croesyceiliog a Phentrepoeth –** Mynegwyd pryder mewn perthynas â digwyddiad diweddar lle'r oedd ci wedi rhwygo dillad cerddwyr wrth fynedfa Pentrepoeth i'r llwybr. Adroddwyd y mater i'r Cyngor Sir a oedd wedi cynghori y dylid gwneud galwad i'r heddlu. Bydd y Clerc yn trafod y mater hwn gyda'r heddlu. Bydd y Clerc hefyd yn gofyn i Swyddogion y Cyngor Sir ymweld i gadarnhau bod y llwybr yn agored ac yn hygyrch. Parhawyd i aros am godi arwydd llwybr troed newydd yn y lleoliad.

**4. COVID-19 –** Trafododd aelodau'r achosion parhaus o COVID-19 a'r effaith ar y Gymuned.

**5. Cais Cynllunio W/40717, Maesglasnant, Cwmffrwd –** Cadarnhaodd y Clerc fod y cais yn parhau i gael ei adolygu gan y Cyngor Sir. Nodwyd.

**6. Llwybr troed 29/1/1 Cwmffrwd tuag at Cincoed –** Nid oedd y Cyngor Sir wedi gallu symud y mater yn ei flaen hyd yma. Nodwyd.

**7. Uchafswm Cyflymder Cwmale –** Roedd y Cyngor yn aros am gyfarfod o'r Gweithgor Cyflymder er mwyn ystyried ymestyn yr ardal 30mya. Bydd y Clerc yn gwneud cais fod Pennaeth Adran y Cyngor Sir yn mynychu cyfarfod o'r Cyngor.

**8. Cynnig i adleoli colofn oleuadau ar safle datblygu tai yng Nghroesyceiliog –** Disgwylid am ddatblygiadau pellach gyda'r cynnig.

**9. Llygaid Cathod - A484 Llandyfaelog i Gaerfyrddin –** Cafwyd cadarnhad o waith ail-wynebu arfaethedig ar rannau o'r A484 rhwng Llandyfaelog a Chaerfyrddin yn ystod yr haf a fyddai'n golygu ail-sod llygaid cathod mewn lleoedd yn:

- Cyffordd Bolahaul, Cwmffrwd
- Cywion Bach i Gyffordd Croesyceiliog
- Rama House i Upland Arms.
- Oaklands, Cwmffrwd

Nodwyd hyn. Bydd twll lle'r oedd llygad cathod wedi mynd ar goll rhwng Cywion Bach a Croesyceiliog yn cael ei adrodd i'r Cyngor Sir.

**10. Tipio anghyfreithlon ar dir preifat yn Llandyfaelog** – Disgwyliwyd am ragor o wybodaeth am y mater.

**11. Cais Cynllunio PL/00750 - Nantyoetre Isaf, Llandyfaelog** - Cadarnhaodd y Clerc fod y cais bellach wedi'i gytuno. Nodwyd.

**12. Diwrnod y GIG, Gofal Cymdeithasol a Gweithwyr Rheng Flaen** – Trafodwyd y mater a bydd poster yn cael ei rhoi ar wefan a hysbysfyrddau'r Cyngor i ddiolch i'r GIG, Gofalwyr Cymdeithasol a Gweithwyr Rheng Flaen yn barod am y digwyddiad ar 5ed Gorffennaf. Bydd y Clerc yn codi'r mater gydag Un Llais Cymru i weld a oedd unrhyw ddigwyddiadau wedi'u cynllunio.

**13. Gwter / draen ar ben llethr Llandyfaelog** – Bydd y mater yn cael ei fonitro.

**14. Pyllu dŵr ar hyd Heol y Lan** – Cafwyd cadarnhad bod gwaith wedi'i wneud yr wythnos honno yn yr ardal. Nodwyd.

**15. Erydiad Lôn Cwmale** – Roedd y Cyngor Sir wedi adolygu'r ardal ac wedi nodi darn bach o bibell ddraenio wedi cwmpo. Roedd hwn bellach wedi'i atgyweirio ar yr un pryd â chlirio'r ffosydd cyfagos. Nodwyd.

**16. Gorfodi Cynllunio, eiddo mewn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth** – Disgwyliwyd am ragor o wybodaeth am y mater.

**17. Pryderon diogelwch priffyrdd, Cyffordd Ffordd Bolahaul yr A484 yng Nghwmffrwd** – Disgwyliwyd am ragor o wybodaeth am y mater.

**18. Pryder am garafán wedi'i lleoli ger Gelligaeros, Idole** – Cafwyd cadarnhad bod cais cynllunio i fod i gael ei gyflwyno ar gyfer addasiadau i gartref Gelligaeros gyda'r bwriad o ddefnyddio'r garafán yn ystod y gwaith hwn. Roedd y Cyngor Sir nawr yn aros am y cais. Nodwyd.

**19. Pryder am gyflymderau traffig ar hyd Heol y Lan** – Disgwyliwyd am ragor o wybodaeth am y mater.

**20. Cynnig i ddarparu llwybr troed rhwng Neuadd Gymunedol Llandyfaelog a'r Ficerdy** – Bydd y Clerc yn parhau i chwilio am gyfleoedd i wneud cais am gyllid ar gyfer y prosiect hwn.

**21. Arwyddion wedi pylu** – Cadarnhaodd y Clerc fod yr arwydd wedi cael ei archebu gan y Cyngor Sir. Nodwyd.

**22. Casglu sbwriel posibl ar ffyrdd yn y Gymuned gan Tim Ad-dalu cymunedol** – Roedd y Clerc yn aros am ymateb ar y mater wrth y Tim Ad-dalu cymunedol. Nodwyd.

**23. Arosfan Bysiau Capel Rama** – Bydd y Clerc yn gofyn fod arosfan bysiau Capel Rama yn cael ei phaentio.

**24. Adroddiad Blynyddol 2020-21** – Cadarnhaodd y Clerc fod yr Adroddiad Blynyddol nawr gyda'r Archwilydd Mewnol ar gyfer adolygiad. Nodwyd.

**25. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol** - Roedd y Cadeirydd a'r Clerc wedi mynychu sesiwn casglu gwybodaeth gyda'r Panel ar 10 Mai 2021 a gwnaed rhoi adroddiad o'r sesiwn. Nodwyd.

**26. PL/01491 – Llyswen, Upland Arms** – Derbyniwyd cadarnhad bod amod cynllunio wedi'i gynnwys ar y gymeradwyaeth i ddarparu lledaeniad gweledded addas. Nodwyd.

**27. Pryderon diogelwch priffyrdd, Cloigyn** – Roedd y Clerc wedi adrodd y mater i'r Cyngor Sir ac roedd nawr yn aros am ymateb.

**28. Amnest Gwastraff Bosibl** – Roedd y Clerc wedi gwneud cais fod y Cyngor Sir yn ystyried darparu amnest wastraff. Derbyniwyd cadarnhad byddai'r mater yn cael ei ystyried pan fyddai cyfyngiadau COVID rhan hyn o waith y Cyngor Sir yn cael ei chodi.

**29. Arwyddion gwasanaethau carafanau, Cyffordd Bolahaul –** Cadarnhaodd y Clerc fod y Cyngor Sir wedi ymweld â'r ardal i ystyried y mater ac oherwydd bod yr arwydd ar dir preifat, nid oedd yna unrhyw weithrediadau gellid ei gymryd. Nodwyd.

**30. Cyfarfod Blynyddol y Cyngor –** Cadarnhaodd y Clerc fod rheoliadau COVID Llywodraeth Cymru nawr yn galluogi cyfarfodydd cymryd lle mewn Neuaddau Cymunedol, roedd y Clerc wedi datblygu asesiad risg a fydd nawr yn cael ei chylchredeg. Bydd y Cyfarfod yn cymryd lle ar 20fed Mai. Byddai eisiau gwisgo mygydau. Nodwyd.

## **5. Gohebiaeth**

- 1. Ffordd Cerdded 29/12 – Fferm Cilmarch –** Mynegwyd pryder eto gan drigolion Fferm Cilmarch mewn perthynas â cherddwyr yn mynd ar goll o'r llwybr ac yn mynd i mewn i'r Fferm. Roedd y Clerc wedi drodd hyn eto i'r Cyngor Sir a fyddai'n cynnal ymweliad i gerdded y llwybr ac ystyried sut roedd hyn yn digwydd. Nodwyd.
- 2. Un Llais Cymru –** Cylchlythyr. Nodwyd.
- 3. Cyngor Sir Caerfyrddin -** Rhifyn diweddaraf Nodiadau Natur Sir Gaerfyrddin. Cadarnhaodd y Clerc fod hwn wedi'i roi ar wefan y Cyngor.
- 4. Llywodraeth Cymru -** Cylchlythyr Diwygio Etholiadol. Nodwyd.
- 5. Banc Barclays –** Datganiadau. Nodwyd.
- 6. Cyngor Sir Caerfyrddin –** Cadarnhad o daliad 1/3ydd o praesept 2021-22 sef £7,833.34. Nodwyd.
- 7. Cyngor Sir Caerfyrddin –** Cais am wybodaeth am ddatganiadau diddordeb a wnaed yn 2020-21 o dan god ymddygiad yr aelodau gyda chais am nifer yr aelodau a oedd wedi derbyn hyfforddiant o dan y cod. Cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi darparu'r manylion angenrheidiol.
- 8. Cyngor Sir Caerfyrddin –** Cais am wybodaeth am a fyddai gan Gynghorau ddiddordeb fod y Cyngor Sir yn trefnu sesiwn hyfforddi cod ymddygiad. Nododd y Cyngor y byddai diddordeb mewn sesiwn o'r fath. Bydd y Clerc yn cadarnhau.
- 9. Cylchgrawn Clerks and Councils Direct –** Nodwyd
- 10. Cyngor Sir Caerfyrddin –** Cadarnhad bod awgrym y Cynghorau y dylai'r Pwyllgor Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd gynnal adolygiad ar y prosesau mewnol mewn perthynas â thipio anghyfreithlon ynghyd â materion gweithredol tipio anghyfreithlon ar dir cyhoeddus a phreifat yn Sir Gaerfyrddin wedi'i dderbyn ac y byddai'n cael ei gynnal ym mis Medi. Nodwyd.
- 11. Ysgol Gyfun Bro Myrddin –** Copi o gais drafft gan yr ysgol ar gyfer y Cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, roedd y cais drafft yn delio â llwybrau cerdded a beicio i'r ysgol, cyflymderau traffig yng nghyffiniau campws yr ysgol a materion hyfforddi. Cytunodd y Cyngor mewn egwyddor i gefnogi'r cais a bydd y Clerc yn trafod manylion y cais gyda'r ysgol a Chynghorau ffiniol eraill er mwyn datblygu'r cais terfynol.
- 12. Cyngor Sir Caerfyrddin –** Rhybudd o gais i gau dros dro'r C2071, Nantycaws i Llanddarog ar Ddydd Gwener 25ain Mehefin 2021. Nodwyd.
- 13. Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda –** Arolwg Asesu Anghenion Fferyllol. Bydd y Clerc yn cylchredeg yr arolwg i aelodau.
- 14. Neuadd Eglwys Santes Ann -** Roedd y Clerc wedi derbyn cyswllt gan Neuadd Eglwys Santes Ann i gael cyngor ar geisiadau grant ac ailagor yn dilyn COVID19. Roedd hefyd wedi cysylltu â'r Cyngor Sir i ofyn am ystyried darparu bin ar ôl adroddiadau bod gwastraff cŵn yn cael ei daflu i dir yr Eglwys.

**15. Priffordd o Garthowen tuag at a thu hwnt i Bryngorse Isaf** - Derbyniwyd cadarnhad gan y Cyngor Sir yn dilyn cais am wybodaeth bod y briffordd y tu hwnt i Bryngorse Isaf yn briffordd breifat. Nodwyd.

## **6. Cae Idole ac Amwynderau'r Cyngor**

1. Nododd y Clerc nad oedd wedi derbyn diweddariad pellach mewn perthynas â'r hawliad am gostau'r difrod ffens.
2. Cadarnhaodd y Clerc prisiau a dderbyniwyd ar gyfer darparu'r 6 bwndel casglu sbwriel fel a ganlyn:
  - Janitorial Supplies £151.45
  - Viking Direct £138.75 (heb gylchoedd bin)Cytunwyd i brynu'r offer wrth Janitorial Supplies.
3. Cadarnhaodd y Clerc fod Atgyweiriwr y Cyngor wedi gwneud gwaith i blannu planhigion newydd yn y gwelyau Mwynderau Cymunedol ym Mancycapel, Cwmffrwd ac Idole. Byddai plannu pellach yn cael ei wneud pan ddaw cyflenwadau ar gael.

## **7. Cytundeb yr Atgyweiriwr**

Cadarnhaodd y Clerc gyfanswm o 28 awr a weithiwyd ar gyfer mis Ebrill gyda yn gwneud taliad o £420.00 yn cael ei gytuno.

## **8. Dadansoddiad Risg 2021-22**

Ystyriodd y Cyngor Ddadansoddiad Risg drafft 2021-22 a gyflwynwyd gan y Clerc. Cytunwyd ar y ddogfen ddrafft.

## **9. Cystadleuaeth Bwgan Brain**

Ystyriodd y Cyngor y posibilrwydd o drefnu cystadleuaeth bwgan brain yn y Gymuned. Cytunwyd y byddai cystadleuaeth yn cael ei threfnu i breswylwyr greu bwgan brain sydd i'w gweld yn glir o ochr y ffordd.

Bydd hysbysiadau yn cael eu rhoi ar yr Hysbysfyrddau Cymunedol ac yn cael eu hysbysebu i sefydliadau Cymunedol ac ati. Byddai'r Bwgan Brain i'w harddangos erbyn 30ain Gorffennaf i'w beirniadu'r penwythnos hwnnw gan Gadeirydd y Cyngor.

Cytunwyd ar wobrau 1af, 2il a 3ydd fel £25, £20, £10.

## **10. Cytundeb Yswiriant 2021-22**

Cadarnhaodd y Clerc derbyniad prisiau ar gyfer polisi yswiriant y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2021-22 fel a ganlyn:

- Pen Underwriting £949.42
- Hiscox £1,127.33
- Ecclesiastical £1,133.11
- Zurich £614.08

Cytunwyd i dderbyn y pris isaf gan Zurich.

## 11. Cynllunio

1. **PL/01585** - Estyniad ystafell ardd unllawr, Glannant, Idole, Caerfyrddin, SA32 8DB. Dim gwrthwynebiadau.

2. **PL/01633** - Codi arfaethedig 5 bodiau gwerysyla a gwaith cysylltiedig, Tir yn Fferm Capel, Bancycapel, Caerfyrddin, SA32 8EB. Bydd y Clerc yn cadarnhau a wrthodwyd ceisiadau cynllunio blaenorol oherwydd pryderon priffyrdd yn y lleoliad hwn, bydd ymateb terfynol i'r cais yn cael ei drafod yn dilyn y cyfarfod blynyddol.

## 12. Cyfrifon

### Cytunwyd y taliadau canlynol

1. **Y Comisiynydd Gwybodaeth**

**£40.00**

Tanysgrifiad 2021-22

2. **Michael Leefe**

**£420.00**

Atgyweiriwr Ebrill(gweler eitem 7)

3.	Disgrifiad	Cyflog	Costau	Cyfanswm Gros	Treth wedi tynnu ffwrdd	YG wedi tynnu ffwrdd	Cyflog Net
Arfon Davies	Cyflog Ebrill a chostau	£624.78 £26.00	£44.00 £5.88 £10.80	£711.46	£133.60	£0.00	£577.86

4. **Arfon Davies (Janitorial Supplies)** **£151.45**

Cyfarpar sbwriel  
Gweler eitem 6.2

5. **Zurich Insurance**

**£614.08**

Policy Yswiriant (gweler eitem 10)

## 13. Materion arall a godwyd gan aelodau

1. Bydd y Clerc yn gofyn fod y tyfiant yng nghyffordd Llandyfaelog ar gyfer cerbydau sy'n troi i gyfeiriad Caerfyrddin yn cael ei dorri'n ôl i gynorthwyo gwelededd cerbydau.

2. Bydd y Clerc yn gofyn am ystyriaeth i welliannau i Sgwar Bryncochbach yn dilyn pryderon ynghylch diogelwch y ffyrdd ar y gyffordd.

3. Bydd y Clerc yn adrodd i'r Cyngor Sir fod yr arwydd adborth gyrwyr yn Bolahaul ddim yn gweithio.

4. Nodwyd ansawdd y gwaith a wnaed gan yr Atgyweiriwr gyda phleser.

5. Nododd y Clerc y camau a gymerodd y Cyngor pan fu farw Ei Uchelder Brenhinol y Tywysog Philip Dug Caeredin. Roedd hyn wedi golygu diweddarau gwefan y Cyngor i adlewyrchu ei marwolaeth. Cadarnhaodd y Clerc ymhellach ei fod wedi codi'r angen i ddatblygu protocol am pan fydd Ei Mawrhydi'r Frenhines yn marw. Bydd y Cyngor yn aros am ragor o wybodaeth ar y mater.

6. Rhoddodd y Cadeirydd adroddiad o gyfarfod Pwyllgor Ardal Caerfyrddin Un Llais Cymru yr oedd wedi'i fynychu.

7. Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am eu cefnogaeth iddi yn ystod ei blwyddyn yn y Gadair.

**Cynhelir Cyfarfod nesaf y Cyngor Nos Iau 3ydd Mehefin 2021 yn Neuadd Gymunedol Llandyfaelog.**